CSCC POSW
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
Planning Officers Society Wales

Get in Touch
www.posw.wales
enquiries@posw.wales

02.06.2026

Annwyl Brif Weinidog a Gweinidog,

Rydym yn ysgrifennu ar ran Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (CSCC).

Yn gyntaf, hoffem eich llongyfarch ar ffurfio Llywodraeth newydd Cymru.

Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn cynrychioli Prif Swyddogion Cynllunio o'r 25 awdurdod cynllunio lleol ar hyd a lled Cymru. Mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn creu lleoedd ar eu rhan ac yn gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru'n darparu datblygiadau cynaliadwy a chanlyniadau cadarnhaol i gymunedau.

Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i ddod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd fel Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru, ochr yn ochr â sefydlu gwerthoedd craidd i arwain y gwaith hwn. Rydym yn credu bod gan y fframwaith cynllunio rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyflawni eich dyheadau ar gyfer cymunedau, twf economaidd a datblygiad cynaliadwy ar hyd a lled Cymru.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yna heriau sylweddol i gyflawni ar hyn o bryd. Yn benodol, mae'r problemau maetholion parhaus sy'n effeithio ar ein hafonydd a'n hamgylcheddau morol yn parhau i gyfyngu ar ddatblygiad, yn enwedig darparu tai mewn rhannau allweddol o Gymru. Yn ogystal, mae canfyddiadau arolwg diweddar RTPI Cymru yn tynnu sylw at y pwysau parhaus ar allu ac arbenigedd o fewn y proffesiwn cynllunio a'r sector cyhoeddus ehangach. Wedi dweud hynny, mae mentrau newydd yn galonogol, gan gynnwys cyfleoedd i hyfforddi a chadw graddedigion talentog yng Nghymru, sy'n cynnig llwybr cadarnhaol i fynd i'r afael â'r heriau hyn wrth gynorthwyo cymunedau gwledig.

Byddem yn croesawu'r cyfle i gwrdd â chi i drafod sut allai'r system gynllunio gefnogi'r dasg o gyflawni twf cynhwysol a chynaliadwy orau ar draws pob rhan o Gymru, gan gynnwys ein hardaloedd gwledig.

Yn gywir,

Sara Morris, Sarah Groves-Phillips a Harriet Lavender

Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd CSCC

CSCC POSW
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
Planning Officers Society Wales

Ymrwymiad i Ragoriaeth - Planning Officers Society Wales